Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2011**

Amser:
**14:15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Steve George**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8242
CLA.Committee@wales.gov.uk

**Olga Lewis**
Dirprwy Clerc y Pwyllgor
029 2089 8154
Olga.Lewis@wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### 2. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Negyddol

**CLA13 - Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2011**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Gorffennaf 2011. Fe'u gosodwyd ar 7 Gorffennaf 2011. Yn dod i rym ar 1 Awst 2011

**CLA14 - Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2011**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Gorffennaf 2011. Fe'u gosodwyd ar 7 Gorffennaf 2011. Yn dod i rym ar 1 Awst 2011

**CLA15 - Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Gorffennaf 2011. Fe'u gosodwyd ar 8 Gorffennaf 2011. Yn dod i rym ar 2 Awst 2011

**CLA16 - Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) (Diwygio) 2011**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Gorffennaf 2011. Fe'u gosodwyd ar 7 Gorffennaf 2011. Yn dod i rym ar 2 Awst 2011

**CLA17 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Gorffennaf 2011. Fe'u gosodwyd ar 12 Gorffennaf 2011. Yn dod i rym ar 3 Awst 2011

Offerynnau'r Weithdrefn Gadarnhaol

Dim

## 3. Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi gyda'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Negyddol

Dim

Offerynnau'r Weithdrefn Gadarnhaol

Dim

## 4. Trafod ymchwiliadau'r pwyllgor ar gyfer y dyfodol

**Darpariaethau ynghylch Gweinidogion Cymru yn Neddfau'r DU**

**Llywodraethu Ystad y Goron yng Nghymru**

**Awdurdodaeth Cymru?**

## 5. Gohebiaeth y Pwyllgor

**CSI2 - Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011** (Tudalennau 1 - 12)

## 6. Dyddiad y cyfarfod nesaf

## Papurau i'w nodi

CLA(4)-03-11- Adroddiad o'r cyfarfod ar 7 Gorffenaf 2011

**Pwyllgor Offerynnau Statudol**
**Committee on Statutory Instruments**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Mr Leighton Andrews AC
Gweinidog dros Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Mehefin 2011

Annwyl Weinidog

**CSI2 - Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011**

Bu'r Pwyllgor Offerynnau Statudol yn trafod y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin 2011 a chytunwyd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiad y Pwyllgor ar rinweddau'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau hyn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mehefin, ac mae wedi'i atodi er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eich ymateb.

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad hwn at y y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a'r llythyr hwn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Offerynnau Statudol

**Adroddiad gan y Pwyllgor Offerynnau Statudol**

**CSI2**

**Teitl: Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011**

**Gweithdrefn**: **Cadarnhaol**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn creu swydd Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd"). Mae adran 2 o'r Mesur yn darparu bod y Comisiynydd yn cael ei benodi gan Brif Weinidog Cymru. Wrth benodi'r Comisiynydd, mae Prif Weinidog Cymru o dan ddyletswydd i gydymffurfio â rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y penodiad (y cyfeirir atynt yn y Mesur fel "rheoliadau penodi"). Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau hyn i gydymffurfio â'u dyletswydd i wneud rheoliadau penodi. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnull panel ethol a'i aelodaeth. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch yr egwyddorion sydd i'w dilyn gan Brif Weinidog Cymru wrth benodi'r Comisiynydd a'r wybodaeth a'r hyfedredd yn y Gymraeg sy'n rhaid i berson a benodir yn Gomisiynydd ei chael neu ei gael.

**Materion Technegol: Craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

**Rhagoriaethau: Craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.3[1], gwahoddir y Pwyllgor i dalu sylw arbennig i'r pwyntiau a ganlyn mewn perthynas â'r offeryn:

i) Dyma'r rheoliadau cyntaf i gael eu gwneud o dan y Mesur. Cafodd y trefniadau ar gyfer penodi'r Comisiynydd eu trafod yn ystod y Trydydd Cynulliad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a chan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, fel rhan o'u gwaith craffu ar y Mesur yn ystod cyfnod 1. Tynnodd y ddau bwyllgor sylw at y trefniadau penodi arfaethedig, gan nodi eu pryderon ynghylch annibyniaeth dybiedig y Comisiynydd. Yn benodol, wrth graffu ar y Mesur, nododd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 bryderon ynghylch creu sefyllfa lle y byddai'r Prif Weinidog yn penodi'r Comisiynydd. Argymhellodd y Pwyllgor mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddylai fod yn gyfrifol am benodi'r Comisiynydd.

ii) Dywedodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn ei adroddiad:

*"58. Ni chredwn ei bod yn rhan o'n cylch gwaith i wneud sylwadau o ran a yw'r trefniadau penodi yn yr achos hwn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyfeiriad gwleidyddol ac*

[1] RhS 21.3(ii) "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad."

*annibyniaeth. Fodd bynnag, credwn y bydd y mater hwn yn ffactor allweddol wrth sefydlu hygrededd y Comisiynydd ymhen amser. Credwn fod hwn yn faes lle y dylai Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol gael cyfle i ystyried a phenderfynu a yw'r trefniadau a gaiff eu cyflwyno yn y diwedd yn cyflawni'r cydbwysedd hwn. Am y rheswm hwn, credwn y dylai'r rheoliadau penodi perthnasol gael eu gwneud gan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol."*

iii) Er na chafodd yr argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, cyflwynodd y Llywodraeth welliannau i'r Mesur arfaethedig yn dilyn hynny, er mwyn sicrhau bod y rheoliadau a fydd yn rheoli penodiad y Comisiynydd bellach yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae Rheoliad 2(d) hefyd yn gwneud darpariaeth a fyddai'n galluogi pwyllgor perthnasol i enwebu Aelod Cynulliad i eistedd ar y panel dethol, er nad oes eglurder ynghylch sut y bydd hynny'n gweithio'n ymarferol.

iv) Mae'r Rheoliadau yn diffinio "pwyllgor perthnasol" fel "un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr estynnir gwahoddiad iddo gan Weinidogion Cymru i enwebu." Nid yw'r Rheoliadau yn darparu unrhyw ganllawiau ynghylch pa bwyllgor y caiff Gweinidogion wahodd i enwebu Aelod i eistedd ar y panel, ac mae'n bosibl y gallai anawsterau ymarferol godi os estynnir gwahoddiad ar adeg pan na fydd unrhyw bwyllgor mewn sefyllfa i wneud enwebiad (er enghraifft, oherwydd y toriad). Mae'n bosibl, felly, y bydd Aelodau am ofyn am eglurhad gan Weinidogion ynghylch sut y maent yn bwriadu rhoi'r ddarpariaeth hon ar waith yn ymarferol.

v) Efallai y bydd y Pwyllgor am nodi bod paragraff 3(1) (b) o Atodlen 1 i'r Mesur yn datgan bod yn rhaid i'r Prif Weinidog roi ystyriaeth i argymhellion y panel dethol.

David Melding AM
Cadeirydd y Pwyllgor Offerynnau Statudol

**22 Mehefin 2011**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Ymateb o ran Rhinweddau – Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar y pryderon a godwyd gan Aelodau'r Cynulliad ynghylch penodi Comisiynydd y Gymraeg a'r weithdrefn ddeddfwriaethol ar gyfer y Rheoliadau. Bydd y Rheoliadau hyn yn mynd drwy'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol ac maent yn darparu rôl i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y broses sy'n arwain at benodi'r Comisiynydd gan y Prif Weinidog.

Bwriad y Llywodraeth fyddai gwahodd Pwyllgor y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb am graffu ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg i enwebu Aelod o'r Cynulliad i eistedd ar y panel dethol. Ond, rhag ofn na fydd Pwyllgor o'r fath yn bodoli, mae rheoliad 2(ch) wedi ei ddrafftio i ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wahodd Pwyllgor arall i enwebu Aelod o'r Cynulliad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr angen i benodi Comisiynydd a'r angen o ganlyniad i alw panel dethol yn wybyddus ymlaen llaw. Felly, bydd y Llywodraeth hon yn cymryd camau i ohebu â'r Pwyllgor yn ystod tymor y Cynulliad. Ond, weithiau efallai bydd angen ysgrifennu at y Pwyllgor yn ystod toriad.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2011 Rhif (Cy.  )

# Y GYMRAEG, CYMRU

# Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn creu swydd Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd"). Mae adran 2 o'r Mesur yn darparu bod y Comisiynydd yn cael ei benodi gan Brif Weinidog Cymru.

Wrth benodi'r Comisiynydd, mae Prif Weinidog Cymru o dan ddyletswydd i gydymffurfio â rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y penodiad (y cyfeirir atynt yn y Mesur fel "rheoliadau penodi").

Mae paragraff 7(1) o Atodlen 1 i'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau penodi.

Mae paragraff 7(2) o Atodlen 1 i'r Mesur yn darparu bod yn rhaid i reoliadau penodi wneud darpariaeth ynghylch sefydlu panel o bersonau sydd i gyf-weld ag ymgeiswyr ar gyfer penodi Comisiynydd a gwneud argymhellion i Brif Weinidog Cymru mewn perthynas â'r penodiad hwnnw (y cyfeirir ato yn y Mesur fel "panel dethol").

Mae paragraffau 7(3) i (6) o Atodlen 1 i'r Mesur yn darparu y caiff rheoliadau penodi wneud darpariaeth ynghylch yr egwyddorion sydd i'w dilyn wrth benodi'r Comisiynydd a gwybodaeth y Comisiynydd o'r Gymraeg a'i hyfedredd ynddi, ymysg materion eraill.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau hyn i gydymffurfio â'u dyletswydd i wneud rheoliadau penodi. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnull panel ethol a'i aelodaeth. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch

yr egwyddorion sydd i'w dilyn gan Brif Weinidog Cymru wrth benodi'r Comisiynydd a'r wybodaeth a'r hyfedredd yn y Gymraeg sy'n rhaid i berson a benodir yn Gomisiynydd ei chael neu ei gael.

Mae rheoliad 2 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnull panel dethol pan fydd Prif Weinidog Cymru yn gofyn iddynt wneud hynny. Bydd panel dethol a sefydlir ar gyfer penodi'r Comisiynydd yn cynnwys aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru (a elwir "Llywodraeth Cymru"); asesydd annibynnol; person sydd â phrofiad o hybu defnydd o'r Gymraeg a/neu iaith arall; ac Aelod Cynulliad a enwebwyd gan un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mewn achos pan fo pwyllgor yn gwrthod neu'n methu enwebu, mae rheoliad 2 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gynnull panel dethol nad yw'n cynnwys Aelod Cynulliad.

Mae rheoliad 3 yn atal person sy'n dal neu wedi dal swydd Comisiynydd neu Ddirprwy Gomisiynydd y Gymraeg rhag eistedd ar banel dethol.

Mae rheoliad 4 yn gosod dyletswydd ar Brif Weinidog Cymru, wrth benodi'r Comisiynydd, i ddilyn egwyddorion cyfrifoldeb gweinidogion; teilyngdod; craffu annibynnol; cyfle cyfartal; uniondeb; didwylledd a thryloywder; a chymesuredd gan gymryd i ystyriaeth y disgrifiad o'r egwyddorion hynny a nodir yng Nghod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus dyddiedig Awst 2009. Gellir cael copi o'r Cod Ymarfer dyddiedig Awst 2009 ar wefan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus: www.publicappointmentscommissioner.org/

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwybodaeth o'r Gymraeg a hyfedredd ynddi y mae'n rhaid i berson a benodir yn Gomisiynydd ei chael neu ei gael.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau hyn wedi ei baratoi a gellir cael copi ohono gan Uned yr Iaith Gymraeg, Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2011 Rhif (Cy. )

# Y GYMRAEG, CYMRU

## Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *29 Mehefin 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(3) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a pharagraff 7 o Atodlen 1 iddo(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 29 Mehefin 2011 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Sefydlu panel dethol**

**2.**—(1) Pan ofynnir iddynt wneud hynny gan Brif Weinidog Cymru rhaid i Weinidogion Cymru gynnull panel dethol at ddibenion paragraff 7(2) o Atodlen 1 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i banel dethol gael ei ffurfio gan y canlynol—

(a) aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru;

(b) person achrededig gan Swyddfa’r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus i weithredu fel asesydd penodi annibynnol;

(c) person y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn meddu ar brofiad perthnasol; ac

(**1**) 2011 mccc 1

(ch) Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a enwebwyd gan bwyllgor perthnasol.

(3) Pan fo pwyllgor perthnasol naill ai:

(a) yn gwrthod enwebu; neu

(b) yn methu ag enwebu o fewn amser rhesymol,

nid yw paragraff (2)(ch) o'r rheoliad hwn yn gymwys.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "profiad perthnasol" (*"relevant experience"*) yw profiad o hybu defnydd o'r Gymraeg a/neu iaith arall; ac

ystyr "pwyllgor perthnasol" (*"relevant committee"*) yw un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr estynnir gwahoddiad iddo gan Weinidogion Cymru i enwebu.

**Personau wedi eu anghymhwyso**

**3.** Mae person sy'n dal neu wedi dal swydd Comisiynydd neu Ddirprwy Gomisiynydd wedi ei anghymhwyso rhag eistedd ar banel dethol.

**Yr egwyddorion i'w dilyn**

**4.** Wrth benodi'r Comisiynydd rhaid i Brif Weinidog Cymru ddilyn egwyddorion cyfrifoldeb gweinidogion, teilyngdod, craffu annibynnol, cyfle cyfartal, uniondeb, didwylledd a thryloywder a chymesuredd gan gymryd i ystyriaeth y disgrifiad o'r egwyddorion hynny yng Nghod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus dyddiedig Awst 2009.

**Gwybodaeth o'r Gymraeg a hyfedredd ynddi**

**5.**—(1) Wrth gyf-weld ag ymgeiswyr ar gyfer penodi Comisiynydd, rhaid i banel dethol asesu gwybodaeth pob ymgeisydd o'r Gymraeg a'i hyfedredd ynddi.

(2) Rhaid i argymhellion y mae panel dethol yn eu rhoi i Brif Weinidog Cymru mewn perthynas â'r penodiad gynnwys asesiad y panel o wybodaeth pob ymgeisydd o'r Gymraeg a'i hyfedredd ynddi.

(3) Cyn penodi person yn Gomisiynydd rhaid bod Prif Weinidog Cymru wedi ei fodloni bod gan y person wybodaeth ddigonol o'r Gymraeg a hyfedredd digonol ynddi i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

*Enw*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LA/05398/11

David Melding AM
Chair of the Constitutional Affairs and
Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA.

6 July 2011

Dear David

**CSI2 - The Welsh Language Commissioner (Appointment) Regulations 2011**

Thank you for your letter of 27 June drawing my attention to the report of the Committee on Statutory Instruments which considered the Welsh Language Commissioner (Appointment) Regulations 2011 ("the regulations") at its meeting on 22 June 2011. I note that you have made arrangements for the report to be drawn to the attention of the First Minister and Assembly Members and that the Committee agreed to invite the Assembly to pay special attention to this Instrument on the grounds "that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Assembly" (Standing Order 21.3(ii)).

I responded to the points raised by your Committee in my Government response to the report as well as during the Plenary debate on the regulations on 28 June and I am grateful for the opportunity to further address these issues. The two main issues arising from the report relate to:

(i) concerns about the perceived independence of the Commissioner, particularly in light of the fact that the Commissioner is appointed by the First Minister as opposed to the National Assembly for Wales.

I am aware that during Assembly scrutiny of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 ("the Measure"), Members raised concerns regarding the appointment of the Commissioner by the First Minister. I believe that it is appropriate for the Commissioner to be appointed by the First Minister. It should be borne in mind that the Commissioner's principal aim in exercising his or her functions will be to promote and facilitate the use of Welsh and that, in this respect, he or she will be instrumental in delivering the Government's policy aims with regard to the Welsh language. It will be important, therefore, to ensure some degree of cooperation. Appointment by the First Minister is consistent with the process for appointing the Children's Commissioner for Wales and the Commissioner for Older People in Wales.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

At the same time, the Measure includes a number of safeguards which secure the Commissioner's independence, for example the duty on the Welsh Ministers, when exercising functions in relation to the Commissioner, to have regard to the fact that it is desirable to ensure that he Commissioner is under as few constraints as reasonably possible in determining his or her activities, timetable and priorities.

The Measure, as approved by Members, does place a duty on the First Minister to appoint the Commissioner. However, I believe that the Welsh Government has responded to the wish expressed by Members to be involved in the appointment process. The regulations approved by the Assembly on 28 June include a provision which ensures an Assembly Member nominated by a committee of the Assembly will sit on the selection panel to interview candidates and make recommendations to the First Minister regarding the appointment. I am confident that these important provisions strike an appropriate balance between cooperation and independence for the Commissioner.

The Measure was amended, in line with the recommendation of the then Constitutional Affairs Committee, to ensure that the regulations are subject to the affirmative resolution procedure, therefore providing an opportunity for the National Assembly to debate the balance between cooperation and independence of the Commissioner. I am pleased that Members approved these regulations.

(ii) concerns about how the provision to invite a committee of the Assembly to nominate a member of the selection panel will work in practice.

As stated in my Government response, regulation 2(2)(d) is drafted to provide a degree of flexibility for Welsh Ministers in terms of how they seek a nomination for an Assembly Member. Normally, and I believe that this will usually be the case, the Government will invite a committee of the Assembly with responsibility for scrutiny of the Government's Welsh language policy to nominate an Assembly Member to sit on the panel. In future, the need to appoint a new Commissioner, and the consequent need to convene a selection panel, should be known sufficiently well in advance. This will enable the Government to make every effort to seek this nomination from the Assembly during term time.. However, in some exceptional circumstances it may be necessary to write to the Committee during a recess period.

In appointing the first Commissioner, however, I am keen to see the appointment being made as soon as possible in order to ensure that the successful candidate is able to make a valuable contribution to the important work that lies ahead in terms of establishing his or her office and in facilitating the transition from the current arrangements to the new system of language standards. Since a scrutiny committee had not been established, on 20 June I invited the Business Committee to provide this nomination. Of course, since that date, the Communities, Equality and Local Government Committee has been established and, as such, I have written to the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee inviting that Committee to make a nomination This accords with the Business Committee's assessment, in their meeting on 28 June, that the Communities, Equality and Local Government Committee should make the nomination.,.

The Committee's report also makes reference to the provision contained in paragraph 3(1)(b) of Schedule 1 to the Measure which places a duty on the First Minister, in appointing the Commissioner, to take account of the recommendations made by the selection panel. In my view, this provision is entirely appropriate. As I stated during the plenary debate, the composition of the selection panel is consistent with well-established processes for public appointments but also includes a person with experience relevant to the field in which the Commissioner will work.

I am confident that the selection panel is appropriate and will provide a balanced view in its recommendations to the First Minister. However, the First Minister could legitimately take into account the panel's recommendations and appoint a different candidate. In such a situation, the First Minister would need to have legitimate grounds for doing so and be able to evidence that the panel's recommendations had been taken into account.

I hope the Committee finds this information helpful.

Yours sincerely

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-03-11 : 7 Gorffennaf 2011**

**Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Cynulliad fel a ganlyn:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Negyddol**

**CLA11 - Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Dyddiad y'u gwnaed:** 22 Mehefin 2011
**Dyddiad y'u gosodwyd:** 29 Mehefin 2011
**Yn dod i rym ar:** 1 Awst 2011

**CLA12 - Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Dyddiad y'u gwnaed:** 28 Mehefin 2011
**Dyddiad y'u gosodwyd:** 30 Mehefin 2011
**Yn dod i rym ar:** 1 Gorffennaf 2011

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi gyda'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Gadarnhaol**

**CLA10 - Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2011**
**Gweithdrefn:** Cadarnhaol.
**Dyddiad y'u gwnaed:** Heb eu nodi.
**Dyddiad y'u gosodwyd:** Heb eu nodi.
**Yn dod i rym:** Yn unol â Rheoliad 1(b).

Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad ar yr offeryn statudol hwn, sydd ynghlwm yn Atodiad 1, o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Lleisiodd y Pwyllgor bryder fod yr offeryn wedi cael ei wneud yn y Saesneg yn unig. Cytunodd y Pwyllgor fod angen dangos rhesymeg gliriach er

mwyn egluro pam na ddylai offerynnau statudol ar y cyd gael eu gwneud yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd yn arbennig o bwysig fod offerynnau sy'n cael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol, neu offerynnau sy'n arwyddocaol mewn ffyrdd eraill, yn cael eu gwneud yn y Saesneg a'r Gymraeg. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Cadeirydd ysgrifennu at Weinidogion i fynegi barn y Pwyllgor a gofyn am eglurhad pellach.

**Busnes arall**

**Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Lleoliaeth**

Trafododd y Pwyllgor y trydydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Lleoliaeth, a gyfeiriwyd iddo gan y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 29.4. Roedd y Memorandwm yn ymwneud â rhagor o welliannau gan y Llywodraeth i'r Bil mewn perthynas â blaendaliadau tenantiaid a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth.

Roedd disgwyl i'r Cynulliad ystyried y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r memorandwm hwn yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 12 Gorffennaf, ond ni osodwyd y memorandwm tan y diwrnod cyn cyfarfod y Pwyllgor. Er hynny, cafodd y Pwyllgor gyngor llafar gan ei gynghorwyr cyfreithiol.

Byddai'r gwelliannau a gynigwyd mewn perthynas â blaendaliadau tenantiaid yn rhoi 30 diwrnod, yn hytrach na 14 diwrnod, i landlordiaid gydymffurfio â'r gofynion presennol. Byddai hefyd yn cael gwared ar y bwlch cyfreithiol a ddaeth i'r amlwg yn ystod achosion diweddar o ymgyfreitha sy'n caniatáu iddynt, yn ymarferol, gydymffurfio ar unrhyw adeg cyn gwrandawiad llys ar y pwnc. Mae hefyd yn egluro'r hyn y gall tenant ei wneud pan fydd y denantiaeth eisoes wedi dod i ben ond ni ddiogelwyd y blaendal.

Byddai'r gwelliant mewn perthynas â thai amlfeddiannaeth yn eithrio grwpiau cydweithredol tenantiaid rhag gorfod cydymffurfio â'r gofynion trwyddedu ar gyfer tai amlfeddiannaeth o dan Ddeddf Tai 2004.

Gwna'r gwelliannau ddiwygiadau bach ond pwysig i ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr, yn hytrach nag i ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru'n unig. Nid ydynt yn rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion, ond maent yn newid geiriad y ddeddfwriaeth. Felly, nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw reswm dros fynegi pryderon ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**7 Gorffennaf 2011**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-03-11)**

**CLA10**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2011**

**Gweithdrefn**: **Cadarnhaol**

Bydd y Rheoliadau drafft hyn yn berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio rhai o'r darpariaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio sylweddau ymbelydrol yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 S.I.2010/675, er mwyn darparu system fwy modern a thryloyw sy'n hawdd ei defnyddio ar gyfer rheoleiddio sylweddau ymbelydrol sy'n peri risg isel iawn i bobl a'r amgylchedd, tra'n cynnal y lefel angenrheidiol o amddiffyniad.

Mae'r rheoliadau drafft hyn hefyd yn trosi darpariaethau'r Gyfarwyddeb Atal a Rheoli Llygredd mewn ffordd Integredig (Cyfarwyddeb 2008/1/EC) a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cyfarwyddeb 2000/60/EC) sydd wedi'u mewnosod gan y Gyfarwyddeb Dal a Storio Carbon (Cyfarwyddeb 2009/31/EC).

**Materion craffu: technegol**

O dan Reol Sefydlog 21,2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Ni wnaethpwyd y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog.

   [21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud, neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg].

**Rhinweddau: craffu**

O dan Reol Sefydlog 21.3, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Mae rhannau o'r Rheoliadau hyn yn trosi darpariaethau'r Gyfarwyddeb Dal a Storio Carbon. Y terfyn amser ar gyfer trosi'r Gyfarwyddeb Dal a Storio Carbon oedd 25 Mehefin 2011. Mae'r Rheoliadau hyn wedi methu â chael eu gweithredu yng Nghymru

a Lloegr o fewn yr amserlen a osodwyd gan y Gyfarwyddeb Dal a Storio Carbon.

2. Mae'r memorandwm esboniadol a luniwyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn nodi y bydd y darpariaethau sy'n gweithredu Erthyglau 32 a 37 o'r Gyfarwyddeb Dal a Storio Carbon yn dod i rym drannoeth y diwrnod gwneud y rheoliadau. Mae'n nodi y gellir cyfiawnhau'r cyfnod amser byr yn yr achos hwn, er mwyn gallu rhoi'r Rheoliadau drafft mewn grym cyn gynted â phosibl ar ôl y terfyn amser ar gyfer trosi a nodir yn y Gyfarwyddeb, o ystyried lefel uchel yr ymwybyddiaeth am y newid arfaethedig ymysg y rhai sy'n cael eu heffeithio.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**7 Gorffennaf 2011**

**Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2011**

Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn diwygio rhai o'r darpariaethau sy'n ymwneud â sylweddau ymbelydrol yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, Offeryn Statudol 2010.675, ac maent yn newid rhai o Erthyglau'r Gyfarwyddeb Dal a Storio Carbon (Cyfarwyddeb 2009/31/EC) ("y Gyfarwyddeb DSC").

Mae'r drefn Trwyddedu Amgylcheddol yn symleiddio'r rhannau hynny mewn ystod o ddeddfwriaeth hynod dechnegol a chymhleth sy'n ymwneud â gweithdrefnau. Mae hyn wedi'i gwneud yn bosibl symleiddio'r system drwyddedu y mae'r diwydiant a'r rheolyddion yng Nghymru a Lloegr yn ei defnyddio heb beryglu'r safonau amgylcheddol nac iechyd pobl mewn unrhyw ffordd. Oherwydd hyd a lled y ddeddfwriaeth, mae angen ei diwygio o bryd i'w gilydd. Gwnaed y newidiadau hyn drwy'r offerynnau cyfansawdd y cytunwyd arnynt â'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn symleiddio'r system. Mae'r offeryn cyfansawdd hefyd yn lleihau anghyfleustra a dryswch posibl i'r rheini y mae'r Rheoliadau yn effeithio arnynt, yn enwedig o ystyried bod Asiantaeth yr Amgylchedd (un o'r rheolyddion) yn gorff trawsffiniol. Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ac mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU eu cymeradwyo. Yn unol â hynny, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r Offeryn hwn gael ei osod ar ffurf ddrafft, na'i ddarparu'n ddwyieithog.

Mae'r Llywodraeth yn ymddiheuro na wnaed y diwygiadau hyn mewn pryd i fodloni'r dyddiad cau ar gyfer newid y Gyfarwyddeb DSC.

Effeithiodd y materion a gododd o'r broses glirio fewnol cyn deddfu ar yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Rheoliadau hyn.